# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Springfield @ Abergele**

**Garth**
**Ffordd Llanfair**
**Abergele**
**LL22 8DH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

24/07/2019

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae meithrinfa Springfield @ Abergele wedi'i chofrestru i ofalu am uchafswm o 44 o blant hyd at 12 oed. Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli yn nhref Abergele ac mae ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 07.30 a 18.00. David a Suzanne Edwards yw'r unigolion cyfrifol ac maent wedi penodi Sharon Davies fel y person â chyfrifoldeb am redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu drwy gyfrwng y Saesneg a chaiff rhywfaint o Gymraeg achlysurol ei siarad. Nid yw'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Arolygiad â phwyslais penodol oedd yr arolygiad hwn a oedd yn edrych ar lesiant a rhai agweddau ar ofal a datblygiad, yr amgylchedd ac arwain a rheoli. Nid adroddir ar bob elfen o'r meysydd allweddol. Caiff y rhain eu harolygu yn ystod yr arolygiad llawn nesaf.

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd a'r staff yn gyson. Maent wedi setlo'n dda ac yn teimlo'n gyfforddus wrth fynd at y staff. Mae'r plant yn frwdfrydig wrth chwarae ac yn llwyddo i ddysgu a datblygu sgiliau gwahanol. Mae'r staff yn hyrwyddo arferion iach er mwyn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn rheoli'r rhyngweithio'n gadarnhaol, ac maent yn fodelau rôl da. Mae'r staff yn llwyddo i roi cymorth i'r plant ar gyfer eu chwarae a'u dysgu ac maent yn adnabod y plant yn dda. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn lân, yn olau ac yn groesawgar. Mae'r teganau a'r adnoddau o ansawdd da ac mae'r amgylchedd yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant. Mae'r arweinwyr yn rheoli eu gwasanaeth yn dda ac mae ganddynt gynllun clir ar gyfer arwain y gwasanaeth a gwneud newidiadau cadarnhaol er budd y plant. Maent yn gwerthuso'r gofal a ddarperir ganddynt yn rheolaidd ac yn mynd i'r afael â'r materion sy'n codi. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn gymwys ac yn brofiadol ac yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Mae'r arweinwyr wedi meithrin partneriaethau da â'r rhieni.

### 2. Gwelliannau

Ni chafodd yr agwedd hon ei hystyried yn fanwl. Fodd bynnag, ers yr arolygiad diwethaf ac o ganlyniad i gynnydd yn nifer y plant sy'n mynychu'r gwasanaeth, mae'r arweinwyr wedi ailbenodi staff cymwys, profiadol a hirdymor o'u gwasanaethau eraill i reoli ystafelloedd chwarae, ac

Ers yr arolygiad hwn;

- mae'r wal yn yr ystafell chwarae wedi cael ei thrwsio ac mae'n cael ei defnyddio unwaith eto erbyn hyn,

- mae ffurflen benodol i hysbysu rhieni o unrhyw deithiau i ffwrdd o'r gwasanaeth wedi'i llunio fel y gall y rhieni ei chwblhau cyn i unrhyw deithiau o'r fath gael eu cynnal.

## 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaed dau argymhelliad mewn perthynas ag arwain a rheoli.

## 1. Llesiant

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd a'r staff yn gyson. Maent wedi setlo'n dda ac yn teimlo'n gyfforddus wrth fynd at y staff. Mae'r plant yn frwdfrydig wrth chwarae ac yn llwyddo i ddysgu a datblygu sgiliau gwahanol.

**Ein canfyddiadau**

Mae gan y plant lais cryf ac maent yn siarad yn uchel ac yn mynegi eu hunain yn hyderus. Er enghraifft, dywedodd y plant wrthym eu bod yn mwynhau dod i'r gwasanaeth a phan ddywedodd un plentyn wrth y staff nad oedd am gael diod o ddŵr, cafodd ei gais ei barchu. Cafodd anghenion unigol y plant eu blaenoriaethu dros y drefn ddyddiol a phan ddangosodd plentyn ifanc ei fod yn barod i gael llaeth, cafodd ei fwydo ar unwaith. Cafodd y plant ddigon o gyfleoedd i arwain eu chwarae eu hunain. Er enghraifft, gweiddodd un plentyn 'who wants to come and play football on the grass' ac ymunodd dau ffrind ac un aelod o'r staff ag ef.

Roedd gan y plant gydberthnasau agos â'r staff ac roedd y plant iau yn ystafell y babanod wedi estyn eu dwylo allan pan oeddent am gael sicrwydd ac roeddent yn ymddangos fel petaent wedi ymlacio wrth dderbyn cysur. Roedd y plant yn mynd at y staff yn hawdd, naill ai am sgwrs neu i ofyn am gymorth. Er enghraifft, roedd un plentyn am gael cymorth i symud doli a bygi o un ardal i'r llall wrth chwarae yn yr awyr agored. Pan wnaeth aelod o'r staff ofyn i'r plentyn beth ddylent ei wneud, dywedodd y plentyn 'lift it' a gwnaeth y ddau ohonynt godi'r eitemau yn ofalus gyda'i gilydd gan wneud i'r plentyn deimlo'n hapus. Roedd y plant yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol, a oedd yn rhoi ymdeimlad o sicrwydd iddynt. Er enghraifft, gwenodd un plentyn wrth ddweud ei fod yn mynd adref am '4 o'clock, after tea time'; roedd amser te am 3.45pm.

Roedd y plant yn llwyddo i ddysgu sut i ryngweithio'n gadarnhaol. Er enghraifft, gwnaethant rannu teganau ac adnoddau â'i gilydd yn aml a sgwrsio'n gyfeillgar wrth chwarae. Pan ofynnwyd i'r plant p'un a oeddent am helpu i ddyfrio'r blodau gwnaethant ddweud 'yes please', gan ddangos cwrteisi a pharodrwydd i helpu eraill. Gwnaethant gydweithredu'n dda, er enghraifft, gwnaethant eistedd ac yfed eu dŵr yn yr awyr agored pan gawsant eu hatgoffa i wneud hynny.

Roedd y plant yn frwdfrydig wrth chwarae ac roedd ganddynt amrywiaeth eang o weithgareddau i ddewis ohonynt wrth chwarae. Er enghraifft, gwnaethant chwarae gemau yn y rhan gysgodol o'r ardd a mwynhau defnyddio sialc i dynnu llinell o amgylch dwylo o feintiau gwahanol ar y patio. Wrth iddynt dynnu llinell o amgylch y dwylo, roeddent yn dysgu am y gwahaniaeth rhwng mawr a bach a'r lliwiau roeddent yn eu defnyddio. Roedd y plant yn ddyfeisgar ac yn defnyddio'r blociau pren i adeiladu cerrig camu i gydbwyso arnynt. Defnyddiwyd y blociau pren hefyd fel draen ddychmygus, a gwnaeth un plentyn symud y blociau i un ochr er mwyn dangos ei fod wedi 'fixed the drain', cyn gosod y blociau yn ôl yn ofalus. Gwenodd y plant iau yn ystafell y babanod gan edrych yn falch o'u hunain wrth iddynt ddawnsio'n ddigymell i gerddoriaeth.

Roedd y plant yn dysgu am sgiliau gwahanol ac yn datblygu eu hannibyniaeth. Er enghraifft, cawsant eu hannog i helpu i dywallt eu diodydd dŵr eu hunain a gwnaeth y plant a oedd yn ddigon hen olchi a sychu eu dwylo. Roedd y plant wedi'u cymell yn naturiol i ddewis a hunangyfeirio eu chwarae eu hunain, er enghraifft gofynnodd un plentyn a oedd yn chwarae gyda thywod 'who wants Tinkerbell fairy dust and ice cream?' i'w ffrindiau.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Arolygiad â phwyslais penodol oedd yr arolygiad hwn felly nid adroddir ar bob elfen o'r meysydd allweddol. Caiff y rhain eu cynnwys yn yr arolygiad llawn nesaf.

Mae'r staff yn hyrwyddo arferion iach er mwyn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn rheoli'r rhyngweithio'n gadarnhaol, ac maent yn fodelau rôl da. Mae'r staff yn llwyddo i roi cymorth i'r plant ar gyfer eu chwarae a'u dysgu ac maent yn adnabod y plant yn dda.

### Ein canfyddiadau

Eglurodd y staff y strategaethau a ddefnyddir i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol i ni, ac fe'u gwelsom yn cael eu rhoi ar waith. Er enghraifft, gwnaeth y staff ganmol y plant yn rheolaidd am eu cyflawniadau yn ogystal â'u trin yn gyfartal gan ddangos parch iddynt. Roedd y staff yn ymddwyn yn gadarnhaol, roeddent yn hawdd mynd atynt ac roeddent yn gofalu am y plant mewn ffordd garedig a thyner.

Roedd y staff yn adnabod y plant yn dda ac yn ymateb i'w hanghenion yn gyflym. Er enghraifft, cafodd y plant eu cysuro a chael cynnig dŵr i'w yfed ar ôl deffro a chafodd y plant iau a ddangosodd eu bod yn llwglyd eu bwydo ar unwaith. Gwnaethant ymgysylltu'n dda iawn â'r plant, gan sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n brysur ac nad oeddent yn colli diddordeb. Er enghraifft, arweiniodd y staff weithgaredd canu wrth osod y bwrdd, ac roedd y plant wrth eu bodd. Gwnaethant ganu'n uchel i ddechrau ac yna meimio'r gân ac roedd pob un yn edrych ar yr aelod o staff cyn i bawb ddechrau canu'n uchel unwaith eto. Roedd y staff yn olrhain cynnydd y plant ac yn cynllunio gweithgareddau wythnosol i'r plant, a oedd yn cynnwys amrywiaeth o brofiadau chwarae a dysgu. Er enghraifft, roedd y gweithgareddau a gynlluniwyd yn ddiweddar yn cynnwys paentio creaduriaid y môr, creu awyrennau o ffyn lolipop a chreu octopysau gan ddefnyddio papur o liw gwahanol. Cydweithiodd y staff yn dda fel tîm a gwnaethant ymuno â gemau a chwarae'r plant yn llawn brwdfrydedd, gan sicrhau bod y plant yn cael hwyl gyda phawb yn gwenu o glust i glust.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Arolygiad â phwyslais penodol oedd yr arolygiad hwn felly nid adroddir ar bob elfen o'r meysydd allweddol. Caiff y rhain eu cynnwys yn yr arolygiad llawn nesaf.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn lân, yn olau ac yn groesawgar. Mae'r teganau a'r adnoddau o ansawdd da ac mae'r amgylchedd yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant.

### Ein canfyddiadau

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod yr ardaloedd a ddefnyddir gan y plant yn lân ac mewn cyflwr da. Er enghraifft, roedd yr arweinwyr yn trwsio rhan o'r wal yn un o'r ystafelloedd chwarae ar y pryd ac felly nid oedd yr ystafell hon yn cael ei defnyddio tra bod y gwaith hwn yn cael ei gwblhau. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn cwblhau tasgau glanhau dyddiol, a phrofwyd hyn gan y rhestrau gwirio a gwblhawyd. Roedd yr arferion i sicrhau bod dillad gwely'r plant yn cael ei storio'n unigol mewn basgedi â'u henwau arnynt yn helpu i atal croeshalogi. Roedd yr arweinwyr yn treulio cryn dipyn o amser yn trefnu teithiau i ffwrdd er mwyn sicrhau bod asesiadau risg yn cael eu cwblhau'n llawn a bod digon o staff ar gael i oruchwylio'r plant.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod pob ardal yn ddiogel ac roedd pob ystafell chwarae wedi'i gosod allan yn dda, wedi'i haddurno'n lliwgar, yn olau ac yn groesawgar ac yn arddangos gwaith celf lliwgar y plant. Roedd yr adnoddau ym mhob ystafell chwarae ac yn yr awyr agored yn lân, mewn cyflwr da ac yn gweddu i oedrannau a chamau datblygu'r plant. Er enghraifft, gallai'r plant iau ymarfer eu sgiliau cerdded gan ddefnyddio'r teganau gwthio, neu eistedd yn gyfforddus ar fat i chwarae gyda theganau o'u dewis. Gwnaeth y plant hŷn a oedd yn chwarae yn yr awyr agored arbrofi gyda thywod a dŵr neu greu straeon wrth chwarae gyda'i gilydd â'r bobl byd bach. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau y gallai'r plant archwilio deunyddiau a gweadau gwahanol i hyrwyddo eu creadigrwydd. Er enghraifft, gwnaethant ddefnyddio printiau o ddwylo wedi'u paentio i greu cranc a gwlân cotwm i greu cymylau. Roedd y cyfarpar a welsom yn lân, megis y cotiau i'r plant iau gysgu ynddynt ac roedd ardaloedd cyfforddus ym mhob rhan o'r gwasanaeth lle y gallai'r plant ymlacio.

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Arolygiad â phwyslais penodol oedd yr arolygiad hwn felly nid adroddir ar bob elfen o'r meysydd allweddol. Caiff y rhain eu cynnwys yn yr arolygiad llawn nesaf.

Mae'r arweinwyr yn rheoli eu gwasanaeth yn dda ac mae ganddynt gynllun clir ar gyfer arwain y gwasanaeth a gwneud newidiadau cadarnhaol er budd y plant. Maent yn gwerthuso'r gofal a ddarperir ganddynt yn rheolaidd ac yn mynd i'r afael â'r materion sy'n codi. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn gymwys ac yn brofiadol ac yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Mae'r arweinwyr wedi meithrin partneriaethau da â'r rhieni.

### Ein canfyddiadau

Roedd yr arweinwyr wedi creu systemau effeithiol er mwyn sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi yn eu rolau a'u bod yn deall eu cyfrifoldebau. Roedd y rhain yn cynnwys hyfforddiant sefydlu staff, sesiynau goruchwylio ac arfarniad blynyddol. Oherwydd cynnydd diweddar yn nifer y plant sy'n mynychu'r gwasanaeth, roedd yr arweinwyr wedi recriwtio staff ychwanegol ac wedi ailbenodi staff cymwys a phrofiadol o'u gwasanaethau eraill i reoli ystafelloedd chwarae unigol. Roedd hyn, yn ogystal â'r system gweithwyr allweddol, yn dangos bod yr arweinwyr yn ymrwymedig i ddarparu parhad o ran gofal i'r plant.

Roedd yr arweinwyr yn darparu'r wybodaeth yr oedd ei hangen ar y rhieni cyn i'w plant ddechrau yn y gwasanaeth ac yn ystod eu cyfnod yno. Er enghraifft, roedd y datganiad o ddiben yn nodi nodau ac amcanion y gwasanaeth ac roedd y rhieni'n cael gwybodaeth am yr opsiwn i'w plant fynychu Dragon Camp yn ystod y gwyliau, a gynhelir yn un o safleoedd eraill y gwasanaeth, unwaith i'w plentyn droi'n bedair oed. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod gweithdrefnau effeithiol ar gael a oedd yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol er budd y plant. Er enghraifft, roedd sicrhau bod y plant yn gwisgo eli haul a hetiau ac yn yfed digon o ddŵr ar ddiwrnod poeth o haf yn flaenoriaeth i'r tîm o staff a gwnaethant ddangos arferion iechyd a diogelwch da.

Roedd yr arweinwyr yn ystyried barn y rhieni er mwyn gwneud gwelliannau ac roeddent yn mynd i'r afael â'r materion a oedd yn codi. Er enghraifft, yn dilyn sylw a dderbyniwyd gan rieni ar daflen ansawdd gofal wythnosol eu plentyn, prynwyd mwy o sisyrnau er mwyn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i ddysgu sut i dorri siapiau gwahanol ar eu pen eu hunain. Roedd gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth i godi safonau a gwella canlyniadau i'r plant. Er enghraifft, roedd aelod o'r staff wedi cael ei gyflogi'n benodol i ddatblygu profiadau chwarae a dysgu'r plant yn yr awyr agored.

Roedd yr arweinwyr wedi meithrin partneriaethau da â'r rhieni, gan sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth am gyfnod eu plant yn y gwasanaeth ar ffurf cofnodion ysgrifenedig dyddiol ac ar lafar. Roedd yr arweinwyr wedi creu tudalen cyfryngau cymdeithasol i roi rhagor o wybodaeth i'r rhieni, megis y gweithgareddau a'r digwyddiadau yr oedd eu plant wedi cymryd rhan ynddynt. Fodd bynnag, gallai'r arweinwyr ystyried hysbysu'r rhieni o unrhyw newidiadau dros dro i'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli o ddydd i ddydd neu newidiadau staffio mewn ffordd fwy ffurfiol. Byddai hyn yn rhoi gwybodaeth gliriach i'r rhieni ynglŷn â phwy sydd wrth y llyw a pha aelodau o'r staff sy'n gofalu am eu plant. Roedd yr arweinwyr

yn gofyn am ganiatâd ysgrifenedig gan y rhieni i fynd â'u plant ar deithiau i ffwrdd o'r gwasanaeth neu ar deithiau cerdded yn y gymuned cyn i'w plant ddechrau yno. Roedd y cysylltiadau hyn â'r gymuned yn gwella canlyniadau i'r plant wrth iddynt ddysgu mwy am y byd o'u cwmpas. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, roedd rhieni yn cael eu hysbysu ar lafar am rai teithiau a drefnwyd wythnos ymlaen llaw a gallai hyn olygu nad oedd pob rhiant yn derbyn yr holl wybodaeth.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gallai'r arweinwyr ystyried y canlynol:

- darparu gwybodaeth gliriach i'r rhieni os bydd y person sy'n rheoli'r gwasanaeth yn ddyddiol yn newid dros dro neu os bydd newidiadau staffio,
- cynnwys gwybodaeth yn natganiad o ddiben y gwasanaeth am yr opsiwn i'r plant fynychu Dragon Camp y gwasanaeth unwaith iddynt droi'n bedair oed.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Arolygiad dirybudd â phwyslais penodol oedd yr arolygiad hwn yn dilyn pryder ynghylch rhai agweddau ar ofal a datblygiad, yr amgylchedd ac arwain a rheoli.

Gwnaethom ymweld â'r gwasanaeth ar 24 Gorffennaf 2019 rhwng 11.20 a 15.55.

Gwnaethom y canlynol:

- archwilio sampl o ddogfennaeth a chofnodion;
- arsylwi ar arferion a'r gofal a ddarperir gan y staff;
- siarad â'r plant a'r staff;
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir, y teganau, y cyfarpar a'r adnoddau;
- rhoi adborth i'r person â chyfrifoldeb a'r rheolwr gweithrediadau.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Llawn** |
| **Unigolion Cyfrifol** | **David a Suzanne Edwards** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Sharon Davies** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **44** |
| **Ystod oedran y plant** | **Geni hyd at 12 oed** |
| **Oriau agor** | **Dydd Llun i ddydd Gwener 07.30 – 18.00** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC** | **16 ac 22 Mawrth 2018** |
| **Dyddiadau'r ymweliad arolygu hwn** | **24 Gorffennaf 2019** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | Nac ydy. Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli mewn ardal Saesneg ei hiaith yn bennaf ac nid yw'r darparwr yn hyrwyddo gwasanaeth Cymraeg yn llawn. Argymhellwn y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried canllawiau strategol olynol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 17 Medi 2019